

Cynllun Datblygu Lleol Conwy

2007 – 2022



CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL

CDLI40: Coed a Datblygiad

Mabwysiadwyd Chwefror 2017

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor ar: www.conwy.gov.uk/ldp Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld ym mhrif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir cael copi gan yr adran Cynllunio Strategol a Chymunedau, Adeilad y Llyfrgell, Mostyn Street, Llandudno, Conwy LL30 2RP neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181/575445/575124/574232.

Os hoffech chi gael dyfyniad neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu ar unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575461.

Datganiad Ymgynghori

Ymgynghorwyd yn gyhoeddus ynglŷn â'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn am gyfnod o chwe wythnos rhwng 31 Hydref 2016 a 9 Rhagfyr 2016

Cawsant eu mabwysiadu gan y Cabinet ar 28 Chwefror 2017

Mae copïau o'r sylwadau a gafwyd, ynghyd ag ymateb y Cyngor, i'w gweld ar-lein ar <http://conwy.jdi-consult.net/ldpcym/>

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	4
2.	Statws a chyfnodau paratoi.....	4
3.	Cefndir	4
4.	Polisi a Rheoliadau Cynllunio.....	4
5.	Canllawiau	5
6.	Dyluniad.....	6
7.	Prosesau a Gwybodaeth.....	10
8.	Y Cam Adeiladu / Ôl-ofal.....	11
9.	Gwarchodaeth Statudol.....	13
	Atodiad 1 – Cynllunio ar gyfer Coed ar Safleoedd Datblygu – Diagram Llif.....	14
	Atodiad 2 – Enghraifft o Gynllun Diogelu Coed.....	15
	Atodiad 3 - Gwybodaeth Ychwanegol.....	16
	Atodiad 4 – Canllaw plannu ar gyfer rhywogaethau addas yng Nghonwy.....	17
	Atodiad 5 – Gofynion Arolwg	19

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Nodyn hwn yn un o gyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA), sy'n ymhelaethu ar bolisiâu'r cynllun datblygu a materion eraill mewn ffordd glir a chryno gyda'r nod o wella dyluniad ac ansawdd datblygiadau newydd. Bwriad y nodiadau yw cynnig canllawiau bras a fydd o gymorth i aelodau'r cyhoedd a swyddogion mewn trafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio ac o gymorth i swyddogion wrth drin ac aelodau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

2. Statws a chyfnodau paratoi

- 2.1 Nid yw CCA y Cyngor yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth ddilynol yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), gellir trin y CCA fel ystyriaeth gynllunio berthnasol pan fydd ACLI, Arolygwyr Cynllunio a Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau.
- 2.2 Mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi yn unol â pholisi cynllunio a gynhwysir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8), Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru (2015); a Nodiadau Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru.

3. Cefndir

- 3.1 Mae coed a pherthi yn rhan bwysig o'n hamgylchedd ac wrth ddarparu datblygiad cynaliadwy, mae cadw a phlannu coed a pherthi newydd yn hanfodol.
- 3.2 Mae coed yn cyfrannu'n sylweddol at amwynder y dirwedd a'r strydwedd, yn ychwanegu aeddfedrwydd i ddatblygiadau newydd, yn gwneud lleoedd yn fwy deniadol, ac yn helpu i leddfu'r amgylchedd adeiledig drwy wella golygfeydd dymunol, drwy dorri ar olygfeydd a drwy roi sgrin rhag adeiladau hyll a golygfeydd annymunol. Maent yn cyfrannu at ansawdd bywyd ac ymdeimlad o les pobl, ac yn cynhyrchu ocsigen, storio carbon, rhyng-gipio ac amsugno glaw a thrwy hynny yn lleihau'r risg o lifogydd, amsugno llygryddion sy'n helpu i leihau'r achosion o salwch resbiradol, hidlo sŵn, darparu cysgod ac yn rhoi cynefin i fywyd gwyllt.

4. Polisi a Rheoliadau Cynllunio

- 4.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'n glir bod "*coed, coetiroedd a pherthi yn bwysig iawn, fel cynefinoedd bywyd gwyllt ac o ran eu cyfraniad at gymeriad y dirwedd a harddwch. Maent hefyd yn chwarae rhan wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy ddal carbon, ac yn gallu darparu ffynhonnell ynni cynaliadwy. Dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio diogelu coed, grwpiau o goed ac ardaloedd o goetir lle mae ganddynt werth treftadaeth naturiol neu yn cyfrannu at gymeriad neu amwynder lleoliad penodol. Mae coetiroedd hynafol a lled-naturiol yn gynefinoedd na ellir eu hadfer o werth bioamrywiaeth a dylid eu diogelu rhag datblygiad a fyddai'n achosi difrod sylweddol*" (Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 8, para 5.2.9).

- 4.2 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 10: Gorchmynion Diogelu Coed 1997 yn rhoi cyngor mwy manwl i awdurdodau lleol ar wneud Gorchmynion Diogelu Coed a'r mecanwaith ar gyfer gwneud gwaith ar goed a ddiogelir.
- 4.3 Mae Polisi NTE/1 CDLI Conwy a CCA CDLI/09 yn nodi'r gofyniad bod nodweddion tirwedd presennol yn cael eu hymgorffori mewn datblygiadau newydd a bod tirlunio addas yn cael ei gynnwys ym mhob datblygiad newydd.

5. Canllawiau

Cyffredinol

- 5.1 Fel arfer, ni chaniateir datblygiad a fyddai'n arwain at ddifrod a/neu dorri coed a pherthi sylweddol yn amhriodol (h.y. Safon Brydeinig 5837: Coed categori A a B). Defnyddir amodau cynllunio a Gorchmynion Diogelu Coed i ddiogelu coed mewn achosion priodol.
- 5.2 Rhaid i'r datblygiad arfaethedig agos i goed, coetiroedd neu berthi presennol fod yn unol â'r cynllun a'r egwyddorion diogelu a nodir yn y CCA hwn a BS 5837: 2012 "Coed mewn perthynas â dylunio, dymchwel ac adeiladu - Argymhellion" (neu unrhyw ddiwygiadau dilynol). Mae'r Safon Brydeinig yn darparu siart llif sy'n manylu ar y camau angenrheidiol i'w cymryd yn ystod pob cam o'r broses ddatblygu. Gellir gweld y siart yn Atodiad 1 o'r Nodyn Cyfarwyddyd hwn.
- 5.3 Bydd y math a'r lefel o wybodaeth coedyddiaeth i'w chyflwyno gyda'ch cais (✓) a lle bydd angen gwybodaeth ychwanegol (*), yn dibynnu ar faint a math y datblygiad arfaethedig.
- i) Ar gyfer ceisiadau deiliad tŷ (e.e. yr holl waith i annedd sengl, ac eithrio adeiladu tŷ) dylai'r holl goed (coesynnau a chanopiâu) a gwrychoedd ar y safle neu o fewn pellter dylanwadol, gael eu nodi'n fanwl gywir ar gynllun bloc. Dylech gynnwys manylion am pa goed sydd i'w cadw, eu gwaredu a'u tocio.
- ii) Ar gyfer ceisiadau ar raddfa fach (e.e. pedair annedd neu lai, arwynebedd llawr o 1000m² neu lai, neu geisiadau amlinellol o lai na 0.5 Ha) lle mae coed ar neu o fewn pellter dylanwadol i'r safle datblygu arfaethedig, bydd angen arolwg tir, Arolwg Coed BS 5837 a Chynllun Diogelu Coed yn hanfodol. Dylech gynnwys manylion am pa goed sydd i'w cadw, eu gwaredu a'u tocio.
- iii) Ar gyfer ceisiadau ar raddfa fawr (e.e. pum annedd neu fwy, arwynebedd llawr o fwy na 1000m², neu geisiadau amlinellol o fwy na 0.5ha, gwaith mwynau a gwastraff cynigion datblygu) lle mae coed ar neu o fewn pellter dylanwadol i'r safle datblygu arfaethedig, dylid cyflwyno arolwg tir, arolwg coed BS 5837, Cynllun Diogelu Coed, Asesiad Goblygiadau Coedyddiaeth a Datganiad Dull Coedyddiaeth gyda'ch cais.

iv) Pan fo coed arwyddocaol (Coed Categori A a B BS 5837) yn bresennol ar neu ger safleoedd ar raddfa fach a safleoedd y gwneir cais amdanynt gan ddeiliaid tai, ac y gallai'r rhain gael eu heffeithio gan y datblygiad arfaethedig, efallai y bydd angen gwybodaeth ychwanegol, megis arolwg coed BS5837 ac Asesiad Goblygiadau Coedyddiaeth.

v) Bydd ymgynghorydd coedyddiaeth yn gallu rhoi cyngor pellach i chi ar y gofynion uchod.

Mae ymgeiswyr yn cael eu cynghori i ymgysylltu â'r ACLI trwy gydol yr ymholiad cyn cyflwyno cais i sicrhau bod materion yn cael eu nodi cyn dylunio safle a chyflwyno cais. Mae gofynion dilysu ar gyfer prif geisiadau wedi eu nodi yn y Rhestr Ddilysu Lleol a gynhyrchwyd gan CBSC ac sydd ar gael ar lein.

Tabl 1: Gwybodaeth Coedyddiaeth sydd ei angen yn ôl Graddfa Datblygiad

Gofynion	Ceisiadau gan Ddeiliaid Tai	Ceisiadau ar Raddfa Fechan	Ceisiadau ar Raddfa Fawr
Coed a Gwrychoedd wedi'u nodi ar Gynllun Bloc	✓	*	*
Arolwg Tir	*	✓	✓
Arolwg Coed BS 5837	*	✓	✓
Asesiad Goblygiadau Coedyddiaeth	*	*	✓
Cynllun Diogelu Coed	*	✓	✓
Datganiad Dull Coedyddiaeth	*	*	✓

6. Dyluniad

- 6.1 Mae plannu coed newydd, gan gynnwys y dewis o rywogaethau, lleoliadau plannu, anghenion cynnal a chadw y dyfodol ac integreiddio coed a pherthi presennol o ansawdd da, yn rhan annatod o'r broses ddylunio. Rhaid i'r gwaith datblygu gael ei gynllunio o amgylch coed a pherthi pwysig a, lle y bo'n briodol, dylid plannu coed a pherthi newydd i wella dyluniad ac amwynder lleol. Er enghraifft, dylid cadw a diogelu coed a pherthi oedrannus, sy'n rhoi amwynder gweledol ac sydd o bwysigrwydd ecolegol neu hanesyddol. Lle bydd datblygiad yn arwain at golli coed a pherthi, bydd yn hanfodol fel arfer i blannu o leiaf yr un nifer neu frigdwf â'r rhai a gollwyd, i liniaru am y gollod.

- 6.2 Lle bydd lle, bydd yn ofynnol defnyddio coed canopi mawr er mwyn darparu strwythur i'r datblygiad a'r dirwedd a'r strydwedd gyfagos. Dylid defnyddio coed a pherthi aeddfed i ddarparu sgrin a thirluniad uniongyrchol lle y bo modd.
- 6.3 Rhaid i ddyluniad datblygiad sicrhau nad yw coed a gaiff eu cadw a'u plannu yn achosi niwsans neu anghyfleustra afresymol. Fel arfer, ni chaniateir cynigion a fyddai'n arwain at goed sy'n achosi cysgod gormodol neu'n rhy ddominyddol neu ormesol, a/neu'n llechfeddiannu'n ormodol ar fan amwynder preifat neu dros eiddo preswyl. Dylid disodli unrhyw goed i'w tynnu gyda rhai o faint neu rywogaethau mwy priodol mewn unrhyw gynigion tirwedd ar gyfer safle. Mewn amgylchiadau eithriadol lle cytunir nad oes datrysiad plannu neu liniaru ar y safle yna mae'n bosibl yr ystyrir plannu oddi ar y safle mewn cytundeb gyda'r ALL. Ni ddylid plannu coed newydd ar safle Heneb Gofrestredig.
- 6.4 Dylid lleoli gwasanaethau cyfleustodau newydd yn ddigon pell i ffwrdd o goed presennol ac arfaethedig i atal difrod i'r coed yn ystod gwaith gosod a chynnal a chadw, ac i osgoi difrod posibl i'r cyfarpar. Lle bo modd, dylid cludo pob cyfarpar cyfleustod drwy bibellau a'u gosod "mewn coridorau". Lle mae'n rhaid gosod gwasanaethau tanddaearol o fewn ardaloedd gwarchod gwreiddiau coed, dylid gosod a chynnal a chadw yn unol ag arfer gorau'r diwydiant, Cyd-Grŵp Cyfleustodau Cenedlaethol Cyfrol 4 (Gweler Atodiad 3). Dylid ystyried defnyddio dull o durio ymwithiol neu rawiau aer ar gyfer gosod gwasanaethau tanddaearol, gan y bydd y dulliau hyn yn cyfyngu ar ddifrod posibl i'r gwreiddiau.



Diogelu Coed

- 6.5 Bydd y math a'r lefel o amddiffyniad sy'n ofynnol ar gyfer coed a gedwir ac ar gyfer ardaloedd i'w plannu yn dibynnu ar faint a math y datblygiad. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, dylai coed a gedwir gael eu diogelu gan rwyll uno dda e.e. Herras, neu ffensys ag estyll agos. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn BS5837.
- 6.6 Dylai'r Parth Gwahardd Adeiladu mewn ardaloedd lle mae coed arwyddocaol hynafol, hen a/neu hanesyddol (BS 5837 o goed Categori A3) fod yn seiliedig ar ardal gyda radiws sydd 15 gwaith diamedr coesyn y goeden (wedi'i fesur 1.5 metr o lefel y ddaear) neu ar bellter o 2 fetr y tu hwnt i'w ledaeniad, p'un bynnag yw'r mwyaf.

Plannu

- 6.7 Bydd yn ofynnol i safleoedd datblygu blannu coed a pherthi newydd priodol, ymysg cynigion tirlunio eraill, er mwyn gwella amwynder a lliniaru ar gyfer colli brigdwf oherwydd torri coed i lawr. Dylai datblygiadau ddarparu ar gyfer plannu coed ar hyd prif ffyrntiadau a llwybrau mynediad. Ar gyfer datblygiad preswyl o ddeg eiddo neu fwy, bydd plannu lôn goed fel arfer yn ofynnol ar brif llwybrau o fewn y safle, a bydd yn rhaid plannu coed ar strydoedd unigol ar ffyrdd mewnol eraill. Lle nad oes modd lliniaru'r effaith o golli coed yn ddigonol gan blannu newydd yn y cynllun, bydd yr ACLI yn

disgwyl i ddatblygwyr blannu coed newydd digonol oddi ar y safle, drwy ddefnyddio cytundebau Adran 106.

- 6.8 Mae'n rhaid i'r dewis o goed i'w plannu gymryd cynllun a dyluniad y safle i ystyriaeth, yn ogystal â'i ddefnydd yn y dyfodol, pridd ac amodau hinsoddol, cymeriad tirwedd lleol ac amgylchoedd cyd-destunol, a rhaid cynllunio gyda digon o le yn y cynllun er mwyn caniatáu i goed gyrraedd eu maint aeddfed. Mae yna gyngor pellach ar ddewis plannu wedi'i awgrymu yn Atodiad 4.
- 6.9 Dylai coed a gaiff eu plannu fod o rywogaeth sy'n cyrraedd maint a ffurf aeddfed sy'n gydnaws â graddfa a strwythur y datblygiad.
- 6.10 Lle cynigir plannu coed o fewn ardaloedd â wyneb caled (e.e. ardaloedd parcio a llwybrau troed) dylai maint y pyllau plannu fod yn ddigon mawr i ddarparu cyfaint digonol o bridd i gefnogi maint aeddfed y goeden/coed (mae rhagor o gyngor ar gyfeintiau gwreiddio coed yn Atodiad 3).



7. Prosesau a Gwybodaeth

- 7.1 **Y Cam Arolwg.** Ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o geisiadau lle mae coed yn bresennol ar neu ger safleoedd datblygu arfaethedig, bydd yn ofynnol cael arolygon tir a choed.
- 7.2 Arolwg Tir - cofnodi lleoliad pob coeden (gyda choesyn â diamedr o 75 mm neu fwy), gan gynnwys eu coesynnau a lledaeniad eu canopi, ac unrhyw lwyni a gwrychoedd arwyddocaol o fewn y safle, a choed ar dir cyfagos sydd o fewn pellter dylanwadol i'r safle datblygu (cyfeiriwch at BS 5837 adran 4.1). Lle nad yw datblygiad yn amharu ar ardaloedd coediog, dim ond y coed ymylol sydd angen eu cofnodi. Mae coed o fewn pellter dylanwadol yn cynnwys y rhai ar neu o fewn pellter cyfartal i 12 gwaith diamedr eu coesyn (wedi'i fesur 1.5 m o lefel y ddaear), y rheiny lle mae'r canopiau yn bargodi ffin y safle datblygu, a/neu sy'n rhoi gormod o gysgod ar eiddo a gerddi preswyl arfaethedig.
- 7.3 Arolwg Coed - nodi priodoleddau, ansawdd a gwerth yr holl goed ar y safle a'r rhai o fewn pellter dylanwadol, e.e. rhif cyf., rhywogaethau, uchder, diamedr coesynnau, oedran, cyflwr, amcangyfrif o hyd oes ac ati (cyfeiriwch at BS 5837 adran 4.4.2.5 a Tabl 1), y rhai a gynigir ar gyfer eu tynnu a chadw ac sy'n cynnwys amserlen waith argymelledig. Dylid cynnal yr arolwg coed yn annibynnol, ac o ddewis, cyn llunio cynigion dyluniadau.
- 7.4 Bydd hefyd yn angenrheidiol i gynnal arolygon pellach lle bydd nodweddion ar neu sy'n gyffiniol â'r safle yn ffafriol i rywogaethau a warchodir. Gall coed gynnwys safleoedd clwydo a bridio ar gyfer ystlumod, rhywogaeth a warchodir gan Ewrop, ac adar, tra gall perthi a llinellau o goed ddarparu swyddogaeth coridor i fywyd gwyllt pwysig. Cysylltwch ag Ecolegydd y Cyngor neu Gyfoeth Naturiol Cymru am gyngor ar y mater hwn.
- 7.5 Caiff perthi brodorol eu gwarchod o dan Reoliadau Perthi 1997 a dylid eu hasesu i benderfynu a ydynt yn 'bwysig' o fewn ystyr y Rheoliadau. Ceir arweiniad pellach ar hyn yn y llyfryn canllawiau a gyhoeddwyd gan DETR "Rheoliadau Perthi 1997: Arweiniad i'r gyfraith ac arfer da". Dylai gwrychoedd gael eu cynnal a'u cynnwys o fewn cynlluniau gyda phlannu ychwanegol, cyswllt cynefin a chynnal a chadw parhaus yn allweddol mewn cynllun cadw llwyddiannus.

Y Cam Dylunio

- 7.6 Wrth ddylunio datblygiad, dylid ystyried y cyfyngiadau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil coed, coetir a pherthi presennol o ansawdd, ac yn darparu digon o le ar gyfer plannu rhai newydd.
- 7.7 Lle y bo'n briodol, bydd yr wybodaeth ganlynol yn ofynnol er mwyn asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar goed a pherthi:

7.8 Asesiad Goblygiadau Coedyddiaeth, sy'n nodi effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol datblygiad ar goed ac yn rhoi cyngor ar fesurau lliniaru dilynol (e.e. mesurau peirianeg a diogelu coed arbennig, a manylion ailblannu lle nad oes modd osgoi colli coed). Dylai'r asesiad gynnwys data atodol cynhwysfawr o arolwg coed, cynllun arolwg coed, cynllun cadw/ tynnu coed, cynllun diogelu coed, a lle bo angen, cynigion ar gyfer plannu coed newydd, dadansoddiad o gysgod a Datganiad Dull Coedyddiaeth dangosol.

7.9 Cynllun Diogelu Coed - yn nodi mesurau diogelu coed ac yn dangos:

- i) Ardal Gwarchod Gwreiddiau - ardal o amgylch coeden sy'n arwydd o'r dwysedd gwreiddio isaf (lledaeniad gwreiddiau a phridd) sydd ei angen ar y goeden i oroesi ac y mae'n rhaid ei ddiogelu yn ystod y datblygiad. Caiff hyn ei bennu gan ddiamedr boncyff y goeden, e.e. ar gyfer coed â choesyn sengl, caiff y diamedr (1.5 metr o lefel y ddaear) ei luosi gyda 12, ar gyfer coed categori A3, caiff diamedr y coesyn ei luosi gyda 15. Ar gyfer coed sydd â mwy nag un coesyn, cyfeiriwch at BS 5837:2012 adran 4.6.1. A a B. Yna, caiff y ffigurau hyn eu trosi gan dyfwr coed i mewn i ardal (mewn m²) o gwmpas pob coeden, gan ystyried unrhyw gyfyngiadau ar dwf gwreiddiau, fel sylfeini, ffyrdd, ac ati
- ii) Parth Gwahardd Adeiladu - ardal o amgylch coed a gedwir y mae'n rhaid eu diogelu yn ystod datblygu, gan gynnwys newidiadau yn lefel y tir, dymchwel ac adeiladu. Mae hyn yn seiliedig ar Ardal Gwarchod Gwreiddiau (mewn m²) a lledaeniad canopi, gyda'r Parth Gwahardd Adeiladu yn ymestyn at ymyl canopi'r goeden neu'r Ardal Gwarchod Gwreiddiau, yn dibynnu ar ba un bynnag yw'r mwyaf.

Ar gyfer coed hynafol, hen a hanesyddol arwyddocaol, bydd yr ACLI yn disgwyl i'r Parth Gwahardd Adeiladu gael ei gynyddu yn unol ag adran 6 o'r nodyn cyfarwyddyd hwn.

7.10 Dylai'r Cynllun Diogelu Coed hefyd ddangos yr holl goed, perthi a llwyni sylweddol mawr sydd i'w cadw a'u gwaredu, lleoliad ffensys amddiffynnol a mesurau diogelu'r ddaear, gan gynnwys manylebau, ac ardaloedd ar gyfer plannu coed arfaethedig (gweler Atodiad 2).

8. Y Cam Adeiladu / Ôl-ofal

8.1 Gall caniatâd cynllunio gynnwys amodau sy'n ymwneud â:

Datganiad Dull Coedyddiaeth – yn pennu arferion gwaith sy'n ymwneud ag unrhyw weithrediadau sy'n agos at goed a gedwir, a dylai gynnwys manylion gwaith trin coed, codi mesurau diogelu coed, gwaith o fewn Ardaloedd Gwarchod Gwreiddiau a Pharthau Gwahardd Adeiladu, goruchwyliaeth coedyddiaeth, cynlluniau wrth gefn, tirlunio arfaethedig yn agos i goed a gedwir a manylion cyswllt.

- 8.2 Gwaith Coed a Pherthi - yn unol ag amserlen waith arolygu coed cymeradwy, ac a gynhelir yn unol â Gwaith Coed Safon Brydeinig: 3998: 2010.
- 8.3 Mesurau diogelu coed a thirlunio meddal - yn unol â'r Cynllun Diogelu Coed, dylid gosod mesurau cyn i'r holl waith datblygu (gan gynnwys dymchwel, stripio pridd a/neu waith ailraddio tir) ddechrau. Bydd y math o ffens diogelu coed a ddefnyddir yn dibynnu ar raddfa a'r math o ddatblygiad. Dylid arolygu mesurau diogelu yn dilyn gosod, ac ar ôl hynny yn rheolaidd nes bod y datblygiad yn cael ei gwblhau'n foddhaol.
- 8.4 Cynllun tirlunio - yn egluro'r lleoliad, y math a'r safonau ymhle caiff y gwaith plannu ei wneud, a dylai gynnwys manyleb a chynllun plannu. Dylai'r fanyleb blannu gynnwys rhywogaethau o blanhigion, math o stoc a maint, yr angen am bolion / sadio dan y ddaear, tiwbiau dŵr / awyru, cysgodfeydd coed / gwarchodwyr cwningen / gwarchodwyr strimer, dimensiynau a pharatoadau ar gyfer pyllau coed ac unrhyw ofynion ar gyfer gwella gwrteithiau / pridd.
- 8.5 Cyfnod cynnal a chadw - lle mae datblygiad yn cynnwys plannu coed, bydd angen amserlen gynnal a chadw am isafswm o bum mlynedd. Bydd yn ofynnol cynnal a chadw coed a blannwyd, gan gynnwys dyfrio, rheoli chwyn, gwirio ac addasu rhwymynnau yn rheolaidd a chael gwared ar stanciau a rhwymynnau coed ar ôl 2-3 blynedd, er mwyn sicrhau y byddant yn sefydlu'n llwyddiannus. Dylai samplau sydd wedi methu gael eu newid. Os oes yna reswm sylfaenol neu reswm hinsoddol pam bod samplau'n methu yna mae'n bosibl yr ystyrir bod rhywogaethau a maint gwahanol yn dderbyniol mewn cytundeb â'r ALI.
- 8.6 Goruchwyliaeth Coedyddiaeth - archwiliadau rheolaidd gan dyfwr coed:
- i) Mesurau diogelu coed a gwrychoedd (ffensys a diogelu'r ddaear).
 - ii) Gwaith o fewn Ardaloedd Gwarchod Gwreiddiau a/neu Barthau Gwahardd Adeiladu.

Enghraifft achos: Bedwen Ddinesig *Betula pendula* yn nhref Conwy. Wedi ei difrodi gan gerbydau a'i chynnal a'i chadw'n wael.

Mae cadw coed a choetiroedd o fewn datblygiadau newydd yn darparu treftadaeth ac yn codi ansawdd cyffredinol y lleoliad. Lle caiff coed eu difrodi ac yna'n dirywio, neu lle mae dyluniad amhriodol yn arwain at wrthdaro, gellir colli'r manteision cadarnhaol hyn.


Er mwyn osgoi problemau'n ymwneud â datblygiad rhy agos at goed, dylid cynnal asesiad o'r adnodd gan arbenigwr coedyddiaeth cyn dechrau unrhyw ddyluniad, a dylai lywio'r broses ddylunio. Hyn fydd y brif ffactor sy'n penderfynu ar gynllun a thirwedd safle.




9. Gwarchodaeth Statudol

- 9.1 Gall coed ar neu wrth ymyl datblygiad a safleoedd wedi'u neilltuo gael eu diogelu gan amodau cynllunio, neu am eu bod wedi eu lleoli o fewn Ardaloedd Cadwraeth neu oherwydd eu bod yn destun Gorchmynion Diogelu Coed, gyda'r tri yn cael eu gweinyddu gan yr ACLI. Mae gan goed mewn Ardaloedd Cadwraeth sydd â choesyn â diamedr o 75 mm neu fwy (yn mesur 1.5 metr o lefel y ddaear) yr un lefel o amddiffyniad â Gorchymyn Cadw Coed. Dylid nodi ei fod yn drosedd, yn amodol ar rai eithriadau, i docio neu dorri coeden a ddiogelir gan Orchymyn Cadw Coed neu o fewn statws Ardal Gadwraeth heb ganiatâd cynllunio. Byddai unrhyw waith heb awdurdod yn cael ei ymchwilio'n drwyadl a gall gynnwys trosedd gyda dirwy hyd at £20,000. Yn ogystal, mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd statudol i reoleiddio coed a gaiff eu torri i lawr drwy roi trwyddedau torri coed. Lle mae coed a pherthi yn cynnwys rhywogaethau a warchodir (e.e. ystlumod, pathewod), mae'n ofynnol cael trwydded i wneud gwaith coed, hefyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru.
- 9.2 Bydd yr ACLI yn arfer ei bwerau gorfodi lle nad yw datblygiad yn cael ei wneud yn unol â chynlluniau cymeradwy neu lle nad yw amodau cynllunio yn cael eu dilyn. Lle ceir achosion o dorri Gorchmynion Diogelu Coed a / neu ddeddfwriaeth coed Ardal Gadwraeth, bydd yr ACLI fel arfer yn cychwyn achos erlyn pan gaiff coed a warchodir eu difrodi neu eu dinistrio.

Atodiad 1 – Cynllunio ar gyfer Coed ar Safleoedd Datblygu – Diagram Llif



Atodiad 2 – Enghraifft o Gynllun Diogelu Coed



Diolchiadau: Darparwyd y Cynllun Diogelu Coed gan 'Tree Solutions Arboricultural Consultancy'

Atodiad 3 - Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r Safonau Prydeinig canlynol, y nodiadau canllaw a'r llyfrau yn cynnig canllawiau pellach ar ddatblygu a choed.

- British Standard 5837: (2012): Trees in Relation to design, demolition and construction - Recommendations.
- British Standard 1192: Part 4: (1984): Construction Drawing Practice - Recommendations for Landscape Drawings.
- British Standard 3882 (2007): Specification for Topsoil and requirements for use.
- British Standard 3936: (1992): Specification for Nursery Stock.
- British Standard 3998: (2010): Tree Work - Recommendations
- British Standard 4043: (1989): Transplanting Root-Balled Trees.
- British Standard 4428: (1989): Code of Practice for General Landscape Operations.

British Standards ar gael o www.bsi-global.com

- Building Research Establishment (BRE) - Low-Rise Building Foundations: The Influence of Trees on Clay Soils (1999). Ar gael o www.brebookshop.com
- Ancient Tree Guides No. 3: Trees and Development. Ar gael o www.woodlandtrust.org.uk
- Adran yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth (DETR) - Rheoliadau Perthi 1997: Canllaw i'r Gyfraith ac Arfer Da. Ar gael o www.hedgelink.org.uk
- Department for Communities and Local Government (DCLG) – Tree Roots in the Built Environment (2006). Ar gael o'r rhan fwyaf o siopau llyfrau.
- National Joint Utilities Group (NJUG) Volume 4 - Guidelines for the Planning, Installation and Maintenance of Utility Apparatus in Proximity to Trees (2007). Ar gael o www.njug.org.uk
- National House Building Council (NHBC) Standards – Building Near Trees: Pennod 4.2 (Diwygiwyd 2003). Ar gael o www.nhbc.co.uk neu drwy ffonio: 0844 633 1000.
- Trees in the Urban Landscape - Site Assessment, Design and Installation (Wiley) (2004). Ar gael o'r rhan fwyaf o siopau llyfrau.
- Up by Roots - Healthy Soils and Trees in the Built Environment (ISA) (2008). Ar gael o www.isaarboriculture.org
- Royal Horticultural Society, guide to Trees and Shrubs: <https://www.rhs.org.uk/advice/Profile?pid=848>

Atodiad 4 – Canllaw plannu ar gyfer rhywogaethau addas yng Nghonwy

Plannu coed

Enw Cyffredin	Enw gwyddonol	Plannu/maint a argymhellir	Gofod	Defnydd
Gwernen	<i>Alnus glutinosa</i>	2m troednoeth	5m	Goddef amodau gwlyb.
Ffawyddden	<i>Fagus sylvatica</i>	2m troednoeth	3-5m	Coetir brodorol, enghreifftiol
Bedwen (sawl amrywiaeth)	<i>Betula pendula</i>	2-3m troednoeth	5-10m	Nodwedd enghreifftiol, aml-goesyn, coetir brodorol. Diddordeb gaeaf.
Ceirios Adar	<i>Prunus padus</i>	2m troednoeth	5m	Coetir
Draenen Wen	<i>Crataegus monogyna</i>	2m troednoeth	3-5m	Enghreifftiol, coetir, draeniog.
Celyn	<i>Ilex aquifolium</i>	75cm troednoeth neu gynhwysydd	1m	Bytholwyrdd, brodorol, ffrwytho, pigog
Derw	<i>Quercus robur</i>	1m troednoeth	5m	Coetir enghreifftiol, nodwedd.
Derw (Sesil)	<i>Quercus petraea</i>	50cm-1m	5m	Coetir.
Poplysen du	<i>Populus nigra</i>			
Criafolen (sawl amrywiaeth)	<i>Sorbus aucuparia</i>	2-3m troednoeth	5m	Coetir, diddordeb gaeaf, enghreifftiol.
Whitebeam	<i>Sorbus aria</i>	2-3m troednoeth	5m	Coetir, diddordeb gaeaf enghreifftiol.
Ffawyddden	<i>Pinus sylvestris</i>	1m	5m	Coetir, enghreifftiol.
Oestrwydden	<i>Carpinus betulus</i>	2m troednoeth	5m	Coetir, nodwedd, enghreifftiol.
Oestrwydden	<i>Carpinus betulus fastigata</i>	2m troednoeth	5m	Enghreifftiol, diddordeb
Ceirios Gwyllt	<i>Prunus avium</i>	2m troednoeth	5m	Coetir
Coeden wylly	<i>Sorbus torminalis</i>	2m	5m	Coetir

Rhywogaethau gwrych

Enw Cyffredin	Enw gwyddonol	Plannu/maint a argymhellir	Gofod	Defnydd
Draenen wen, Quickthorn, blodeuyn mai	<i>Crataegus monogyna</i>	60-100cm troednoeth	30cm	Naturioliol, pigog, Ffrwytho
Ffawyddden	<i>Fagus sylvatica</i>	60-100cm troednoeth	30cm	Naturioliol
Celyn	<i>Ilex aquifolium</i>	4-6lt	30-50cm	Bytholwyrdd, ffrwytho, naturioliol, pigog
Draenen ddu	<i>Prunus spinosa</i>	60-100cm troednoeth	30cm	Pigog, ffrwytho
Rhosyn Gwyllt	<i>Rosa canina</i>	60-100cm troednoeth	30cm	Pigog, ffrwytho
Draenen dân	<i>Pyracantha sp.</i>	60-100cm cynhwysydd <7lt	30cm	Pigog, Ffrwytho, Bytholwyrdd
Rhosyn Japaneaidd	<i>Rosa rugosa</i>	60-100cm troednoeth	50cm	Pigog, ffrwytho
Berberis	<i>Berberis Stenophylla</i>	50-100cm cynhwysydd <7lt	50cm	Pigog
Eithin	<i>Ulex europaeus</i>	2lt	50cm	Arfordirol, Pigog, Naturioliol, Bytholwyrdd
Olewyydden wyllt	<i>Elaeagnus ebbingei</i>	2-4lt	50cm	Arfordirol, Bytholwyrdd
Corswigen	<i>Viburnum opulus</i>	4lt	50cm	Naturioliol, Ffrwytho
Gwytros gwyllt	<i>Ligustrum vulgare</i>	2lt/50cm troednoeth	30cm	Bytholwyrdd, Naturioliol Ffrwytho
Collen	<i>Corylus avellana</i>	75cm troednoeth	50cm	Naturioliol, Gosod gwrych Coedlan
Oestrwydden	<i>Carpinus betulus</i>	60-90cm troednoeth	30cm	Gwrych, enghraifft
Masarnen fach	<i>Acer campestre</i>	4-6lt	50cm	Naturioliol
Ywen	<i>Taxus baccata</i>	24lt/50cm troednoeth	50cm	Naturioliol, bytholwyrdd, anaddas ger anifeiliaid pori neu ofod chwarae

Blwch	<i>Buxus supervirens</i>	2lt	25-30cm	Bytholwyrdd, gwrych, tocweithiol.
Piswydden	<i>Euonymus europaeus</i>	4lt	50cm	Naturiol
Barf y Bwch	<i>Salix Capraea</i>	1m troednoeth	50cm	Naturiol

Sylwer: mae'r rhan fwyaf o blanhigfeydd yn cynnig cyflenwad masnach o gymysgedd gwrych a fydd yn cynnwys cyfuniad o'r 5 rhywogaeth a ddefnyddir mwyaf rheolaidd fel sbesimenau gwraidd rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth. Fel arfer, bydd y rhain yn cael eu plannu mewn rhesi igam-ogam dwbl gyda 30cm o ofod rhyngddynt.

Atodiad 5 – Gofynion Arolwg

Rhestr wirio o pryd mae arolygon bioamrywiaeth yn ofynnol

Os cynigir datblygu sy'n debygol o gael effaith ar rywogaethau neu gynefinoedd a warchodir neu a flaenoriaethir, rhaid i wybodaeth bellach gael ei darparu gan yr ymgeisydd ar ffurf arolwg bioamrywiaeth a gwerthuso effeithiau. Mae'r tabl canlynol yn rhoi canllawiau ar pan fo angen arolygon o'r fath, a dylech sicrhau bod yr holl gynefinoedd sy'n bresennol ar y safle datblygu yn cael eu cynnwys.

Nid oes angen darparu gwybodaeth arolwg manwl lle mae'n cael ei ddangos yn bendant na fydd y cynefin / rhywogaeth yn cael eu heffeithio, naill ai oherwydd nad yw'n bendant yn bresennol neu oherwydd bod dyluniad y datblygiad wedi osgoi pob effaith posib.

Mae'r canllawiau isod o reidrwydd yn gyffredinol, ac mae croeso i chi gysylltu â'r adran gynllunio i gadarnhau gofynion penodol ar gyfer safle.

Cynefin	Gofynion Arolwg*
Pyllau, dŵr sefydlog arall, ffosydd Afonydd a nentydd Ffensys, corsydd a gwernydd	Arolwg Cynefinoedd i isafswm o safon Cam 1 uwch Madfall Gribog Fwyaf dyfrgi llygoden bengron y dŵr Glas y Dorlan aderyn nythu
Safleoedd tir llwyd Glaswelltir (calchaid, niwtral lled-naturiol, cors a glaswelltir asid)	Arolwg Cynefinoedd i isafswm o safon Cam 1 uwch Mochyn daear Ymlusgiaid

	aderyn nythu (Madfall Gribog Fwyaf os oes gan Cofnod gofnodion o fewn 500m)
Twyni tywod Glaswelltir arfordirol Graean arfordirol	Arolwg Cynefinoedd i isafswm o safon Cam 1 uwch Ymlusgiaid aderyn nythu Bwydo ac adar gaeafu
Blaendraeth	Bwydo ac adar gaeafu
Glaswelltir wedi'i wella'n amaethyddol	Mochyn daear
Rhostir a rhostir grug	Arolwg Cynefinoedd i isafswm safon Cam 1 uwch Ymlusgiaid aderyn nythu (Madfall Gribog Fwyaf os oes gan Cofnod gofnodion o fewn 500m)
Gwrychoedd, prysgwydd, coetir	Arolwg Cynefinoedd i isafswm o safon Cam 1 uwch aderyn nythu Pathew ystlumod
Chwareli, wynebâu clogwyni	Arolwg Cynefinoedd i isafswm o safon Cam 1 uwch ystlumod aderyn nythu Ymlusgiaid
Adeiladau segur, pontydd	ystlumod Tylluan wen aderyn nythu

* Noder y dylai pob buddiant bioamrywiaeth o safle gael ei gofnodi gan y syrffêwr, hyd yn oed os nad yw'n ymddangos yn y golofn dde.

Mathau datblygu penodol

Yn ogystal, mae gan y ddau fath datblygu canlynol ofynion arolwg penodol, ond efallai y byddwch yn dymuno ceisio arweiniad pellach:

Math o ddatblygiad	Gofynion arolwg
Datblygu mewn ardaloedd gwledig, sy'n cynnwys unrhyw newid i do	Ystlumod
Datblygiadau tyrbinau gwynt ar raddfa fechan	Arolwg Cynefinoedd i isafswm safon Cam 1 uwch Ystlumod

Bydd y Cyngor yn gofyn am arolygon ychwanegol os bernir bod y manylion a ddarparwyd yn annigonol. Gall cynigion lliniaru gael ei gosod gan y Cyngor trwy amodau cynllunio, naill ai i sicrhau bod y rhai a gynigir gan yr ymgeisydd yn cael eu gweithredu, neu i sicrhau bod cynigion lliniaru sy'n briodol ym marn y Cyngor yn cael eu gweithredu fel rhan o'r datblygiad.

Arolwg ar gyfer:	Math	I	C h	M	E	M	M	G	A	M	H	T	R h
Adar	Bridio			✓	✓	✓	✓	✓					
	Gaeafu	✓	✓								✓	✓	✓
Ymlusgiaid	presenoldeb				✓	✓	✓	✓	✓	✓			
Madfall Gribog Fwyaf	presenoldeb			✓	✓	✓	✓	✓	✓				
Ilygoden bengron y dŵr	presenoldeb			✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		
dyfrgi	Chwilio am arwyddion ar unrhyw adeg ond sylwer y gall llifogydd ar hyd cyrsiau dŵr dynnu baw.	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Mochyn daear	Arolygon set	✓	✓	✓	✓						✓	✓	✓
	Marcio abwyd		✓	✓	✓					✓	✓		
Pathew	chwiliadau cnau cyll									✓	✓	✓	
	chwiliadau nythod					✓	✓	✓	✓	✓			

Ystlumod	Clwydi					✓	✓	✓	✓	✓			
	Gaeafgysgu	✓	✓	✓								✓	✓
Glöyn byw brith y gors	presenoldeb						✓			✓	✓		
Glöyn byw brith y gors								✓					
Cynefin:	Glaswelltir					✓	✓	✓	✓				
	Coetir / gwrych				✓	✓	✓						
	Pyllau/cyrsiau dŵr					✓	✓						
Ffyngau								✓	✓	✓	✓	✓	✓